Effeithiau Iechyd ac Amgylcheddol

Mae gwerthiannau cynnyrch mislif ym Mhrydain yn werth tua £270 miliwn y flwyddyn a bydd person arferol sy'n cael mislif yn defnyddio tua 11,000 o badiau a thamponau yn ystod eu bywyd. Amcangyfrifir bod hyd at 90 y cant o bad mislif yn blastig ac y gall pecyn padiau confensiynol gynnwys gwerth tua phedwar bag plastig!

Mae tamponau, padiau a leinwyr dillad isaf ynghyd â'u pecyn a'u deunydd lapio unigol yn creu dros 200,000 o dunelli o wastraff y flwyddyn, ac mae'r mwyafrif helaeth yn cynnwys plastig.

"Mae Dŵr Cymru'n gwario tua £7 miliwn y flwyddyn yn clirio rhwystrau y gellir eu hosgoi mewn carthffosydd, gan drin 2,000 o achosion bob mis – mae'r gost yn cael ei throsglwyddo i gwsmeriaid trwy'r biliau carthffosiaeth. Mae tua dwy ran o dair o'r achosion o flocio yn rhwydwaith Dŵr Cymru wedi eu hachosi gan sylweddau amhriodol fel braster, olew a saim (FOG), cadachau gwlyb a chynnyrch mislif yn cael eu fflysio i lawr y toiled. Gall pibau sydd wedi blocio achosi llifogydd mewn cartrefi a busnesau, ac achosi llygredd mewn afonydd neu ddyfrffyrdd lleol."

Meddyliwch

- Mewn gwirionedd, gall un cadach, tampon, neu bad, flocio'r pibau yn eich ysgol neu gartref. Peidiwch â chreu perygl llifogydd. Gweithredwch nawr – taflwch pob cadach, gwlanen clust a chynnyrch mislif yn y bin.
- Arhoswch a meddyliwch cyn fflysio – gwnewch y peth iawn a defnyddiwch y bin.
- A wyddoch chi y gall un tampon, pad neu gadach flocio piben – dylent fod yn y bin #ynybin

Bydd tua 8.5 y cant o weddillion carthion – sydd yn cynnwys cynnyrch mislif – yn gorffen eu taith ar draethau Prydain. Gall y deunyddiau hyn gymryd canrifoedd i ddadelfennu, gan fygwth iechyd amgylcheddau morol gyda microplastigau.

Fodd bynnag, nid gwastraff mislif sy'n cael ei roi i lawr y toiled yn unig sydd yn broblem. Mae'r rhan fwyaf o damponau'n cynnwys cemegau fel deuocsin, clorin a rayon. Hyd yn oed os ydym yn eu rhoi yn y bin, yn dibynnu ar eich Awdurdod Lleol, gallant aros mewn safleoedd tirlenwi, lle bydd y cemegau hyn yn cael eu hamsugno gan y ddaear a'u rhyddhau fel llygredd i ddŵr daear a'r aer, neu gael eu defnyddio i greu egni o wastraff. Wrth gael eu llosgi, mae'r cynnyrch hyn yn rhyddhau nwyon gwenwynig, yn cynnwys carbon deuocsid.

Er bod y cynnyrch eu hunain yn cyfrannu'n sylweddol at y broblem amgylcheddol hon, dylem hefyd ystyried sut maent yn cael eu gwneud.

I ddechrau, mae'r deunydd crai yn cael ei echdynnu, sydd yn cynnwys creu cotwm (proses sy'n defnyddio llawer iawn o ddŵr; mae cotwm yn cael ei ystyried fel "cnwd mwyaf sychedig" y byd, ac mae angen chwe pheint o ddŵr arno i dyfu un blaguryn bach) ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cotwm anorganig, sydd wedi cael ei drochi mewn plaladdwyr a phryfleiddiaid.

Yn ail, mae'r rhan fwyaf o badiau yn cynnwys plastig polythen (y glud a ddefnyddir i wneud i'r pad lynu wrth eich dillad isaf), sydd yn lygrwr sy'n niweidiol i'r amgylchedd.

Felly beth allwn ni ei wneud?

1) Peidiwch byth â rhoi cynnyrch mislif i lawr y toiled

2) Newidiwch i gynnyrch organig, bioddiraddiadwy neu ddeunydd amldro e.e. cwpan mislif, padiau amldro, dillad isaf mislif ac ati

Eco-Sgolion
Eco-Schools
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
cadwch keep gymru'n wales daclus tidy